Sir Ddinbych yn ailgylchu
Denbighshire recycles

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

Rheolwr Gweithrediadau Gwastraff ac Ailgylchu

Gwybodaeth am swyddi gwag

Manylion yr Hysbyseb

Teitl y Swydd: Rheolwr Gweithrediadau Gwastraff ac Ailgylchu
Lleoliad: Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff, Dinbych
(bydd angen teithio ar hyd a lled Sir Ddinbych ar gyfer y swydd hon)
Cyflog: Gradd 12 (£51,356 - £54,495 y flwyddyn)
Oriau: 37 yr wythnos
Contract: Parhaol

Os hoffech drafod unrhyw agwedd ar y swydd hon, cysylltwch â Graeme White, Rheolwr Gwastraff ac Ailgylchu ar 01824 712138 neu e-bostiwch graeme.white@sirddinbych.gov.uk

Llinell amser recriwtio	
Dyddiad Cau:	3 Tachwedd 2025
Dyddiad Cyfweliad:	I'w gadarnhau

Sut i wneud cais

I wneud cais am y swydd wag gyffrous hon, llenwch y ffurflen gais ar-lein ar ein gwefan: www.sirddinbych.gov.uk/gweithio-gyda-ni

Amlinellwch ar eich ffurflen gais sut rydych chi'n cwrdd â'r holl feini prawf hanfodol ar gyfer y swydd hon yn eich datganiad ategol.

I ganfod dulliau eraill o wneud cais, ffoniwch y Gwasanaeth Adnoddau Dynol ar 01824 706200.

Mae'n rhaid i ymgeiswyr lenwi ein ffurflen gais er mwyn cael eu hystyried. Mae'n ddrwg gennym na allwn ateb pob cais. Os nad ydych wedi derbyn ateb o fewn tair wythnos i'r dyddiad cau, fe ddylech chi gymryd yn ganiataol nad ydych wedi cyrraedd y rhestr fer am gyfweliad.

Cydraddoldeb

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn Gyflogwr Hyderus o ran Anabledd ac yn ymroddedig i Gyfle Cyfartal a Safonau'r Iaith Gymraeg. Rydym yn croesawu ceisiadau yn y Gymraeg. Ni fydd unrhyw ffurflen gais a dderbynnir yn y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na ffurflen gais a gyflwynir yn Saesneg. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

hyderus o ran anabledd
CYFLOGWR

Y Rôl

Prif bwrpas y rôl yw cynnal a datblygu gweithrediadau dydd i ddydd gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu'r Cyngor. Yn ei hanfod, mae'r Rheolwr Gweithrediadau Gwastraff ac Ailgylchu yn swydd reoli rheng flaen y gwasanaeth gyda'r nod o ddarparu gwasanaeth casglu gwastraff syml, effeithlon a threfnus.

Mae materion gwastraff yn un o'r nodweddion amlycaf o ryngweithio'r Cyngor â'r cyhoedd. Bydd y swydd yn cynnwys darparu gwasanaethau effeithlon i fodloni anghenion y cyhoedd. Felly, mae'n bwysig bod y maes gwasanaeth yn cael ei reoli'n effeithiol gyda sylw i gwsmeriaid. Elfen bwysig arall o'r rôl fydd sicrhau bod y Cyngor yn parhau i gyrraedd targedau Llywodraeth Cymru ar gyfer ailgylchu a gwyro o safleoedd tirlenwi.

Rydym yn chwilio am unigolyn brwdfrydig a llawn cymhelliant, gyda sgiliau rhyngbersonol a threfnu rhagorol. Bydd gennych brofiad sylweddol o reoli gweithredol a byddwch yn gyfrifol am reoli ein gwasanaeth casglu Gwastraff ac Ailgylchu rheng flaen allweddol o ddydd i ddydd:

- Gwasanaethau Casglu Gwastraff ac Ailgylchu Domestig Ymyl Palmant
- Gwasanaethau Gwastraff Masnachol
- Gweithrediadau Trosglwyddo Gwastraff

Byddwch yn gallu dangos profiad o leoli gweithlu mawr, gan hyrwyddo diogelwch yn gyntaf, drwy ddatblygu systemau diogel wrth gynyddu effeithlonrwydd. Byddwch yn gyfrifol am ddatblygu gwelliannau gwasanaeth yn cynnwys canfod arferion gweithio newydd ac arloesol.

Buddion Staff

Credwn y dylai gwaith caled ac ymrwymiad ein staff gael eu gwobrwyo'n briodol. Rydym yn cynnig amrywiaeth o fanteision i helpu ein gweithwyr i sicrhau cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, datblygu yn eu gyrfa, a'u cefnogi yn eu gwaith.

- Cyfleoedd gwaith hyblyg ac ystwyth
- Gwyliau blynyddol hael sy'n dechrau ar 26 diwrnod (yn ogystal â gwyliau banc) yn codi gyda hyd y gwasanaeth i gyfanswm o 32 diwrnod
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol
- Rhaglen Cymorth i Weithwyr (EAP)
- Arbedion Ffordd o Fyw trwy DCC Rewards Direct
- Cynllun aberthu cyflog car a chynllun prydlesu ceir
- Ystod o bolisïau cyfeillgar i deuluoedd

I weld y rhestr lawn o'r manteision rydyn ni'n eu gynnig, ewch i'n gwefan:
www.sirddinbych.gov.uk/tal-a-buddion

Swydd-ddisgrifiad

Teitl y Swydd: Rheolwr Gweithrediadau Gwastraff ac Ailgylchu
Graddfa: Gradd 12
Gwasanaeth: Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol
Maes Gwasanaeth: Gwastraff ac Ailgylchu
Yn atebol i: Rheolwr Gwastraff ac Ailgylchu
Rhif y Swydd: 04565

Categori Iaith Cymraeg

Mae sgiliau iaith Gymraeg yn ddymunol - lefel 1
Lefelau o ran sgiliau Cymraeg

Pwrpas y Swydd

Rheoli swyddogaethau craidd canlynol y Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu.

- Gwasanaethau casglu gwastraff ac ailgylchu domestig ymyl palmant y Cyngor;
- Gwasanaethau gwastraff ac ailgylchu masnachol y Cyngor;
- Gweithrediadau trosglwyddo gwastraff y Cyngor.

Yn ôl y gofyn, bod yn ddirprwy i'r Rheolwr Gwastraff ac Ailgylchu ar bob agwedd ar y Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu.

Prif Atebolrwydd a Chyfrifoldebau

- Gweithio gyda'r Rheolwr Gwastraff ac Ailgylchu i ddatblygu a gweithredu systemau sy'n fwy syml, effeithlon a hyblyg.

- Bod yn gyfrifol am reolaeth uniongyrchol a darpariaeth weithredol y gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu, i fodloni'r holl ddyletswyddau statudol perthnasol a chadw at bolisïau'r Cyngor.

- Goruchwylio'r depos a'r safleoedd trosglwyddo gwastraff a weithredir gan y Cyngor, gan sicrhau y cedwir at hawlenni, gofynion adrodd a chyfyngiadau cynllunio.

- Sicrhau y cydymffurfir â'r rheoliadau Iechyd a Diogelwch cyfredol yn unol â HSG65 ac ISO 18001.

- Arwain ar ofynion Iechyd a Diogelwch ar gyfer y Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu a chynrychioli'r gwasanaeth mewn cyfarfodydd / y Bwrdd Diogelwch Adrannol a Chorfforaethol.

- Bod yn gyfrifol am gynhyrchu ac adolygu'r holl asesiadau risg yn ymwneud â'r gwasanaeth casglu gwastraff ac ailgylchu a'r gwasanaeth trosglwyddo gwastraff a sicrhau bod systemau gweithredu diogel yn cael eu deall yn llawn a'u dilyn gan yr holl weithwyr gwastraff.

- Sicrhau bod hyfforddiant iechyd a diogelwch priodol yn cael ei ddarparu i holl staff gweithredol trwy fonitro rheolaidd, sgyrsiau blwch offer a hyfforddiant allanol / hyfforddiant gloywi.

- Rheoli perfformiad cyllidebau gweithredol i gyflawni targedau ariannol a chynnal safonau ansawdd.

- Arwain y tîm i ganolbwyntio'n gryf ar y cwsmer a chreu trefniadau a fydd yn sicrhau gwelliant parhaus yn y dyfodol.

- Derbyn ymholiadau, ymholiadau, cwynion, ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol ac ymateb i'r ymholiadau hyn o fewn y terfynau amser y cytunwyd arnynt, gan gynnal ymchwiliadau a chasglu gwybodaeth a thystiolaeth pan fo angen i gefnogi'r ymateb.

- Rheoli perfformiad y timau ac unigolion Gwastraff ac Ailgylchu i sicrhau eu bod yn cyflawni safonau cyllidebol ac ansawdd.

- Datblygu cynlluniau olyniaeth a recriwtio i wella cyfleoedd datblygu gyrfa o fewn y gwasanaeth darparu gweithredol a chadw gweithwyr.

- Ymgymryd â swyddogaethau eraill yn ôl yr angen fel aelod o Dîm Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol.

- Dadansoddi holl ofynion gwaith y maes gwasanaeth a datblygu systemau a phrosesau a fydd yn sicrhau bod ymateb y Cyngor i'r gofynion hynny mor effeithlon â phosib'.

- Bydd deiliad y swydd yn cynorthwyo â datblygu arferion gwaith mwy darbodus, effeithlon a hyblyg. Bydd hynny'n cynnwys datblygu systemau mwy arloesol a thraws-swyddogaethol i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael.

- Bydd angen i ddeiliad y swydd fynd i gyfarfodydd gydag amryw fudd-ddeiliaid, gan gynnwys cyfarfodydd Craffu, cyfarfodydd Cynghorau Tref a Chymuned a gall hyn olygu mynd i gyfarfodydd gyda'r nos.

- Bydd cyfrifoldeb gan ddeiliad y swydd dros ofynion gweithredol amrywiol h.y. penderfyniadau gweithredol o ddydd i ddydd, monitro'r gyllideb.

- Bydd cyfrifoldeb mawr ar ddeiliad y swydd dros fonitro a gwerthuso arferion a darpariaeth gwasanaeth polisi pwysig sy'n effeithio ar y gwasanaeth cyfan, dros awgrymu newidiadau a dros reoli gweithredu'r rheini.

- Yn ôl y gofyn, bod yn ddirprwy i'r Rheolwr Gwastraff ac Ailgylchu ar bob agwedd ar y Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu.

Adnoddau / Offer / Deunyddiau

Gliniadur, ffôn symudol, cerbyd CSDd (car, fan fach ac ati, pan fo'r angen).

Goruchwylio / Rheoli Pobl

Bydd deiliad y swydd yn reolwr atebol uniongyrchol i 4 gweithiwr, ac yn gyfrifol am oruchwylio oddeutu 105 aelod tîm.

Amodau Gwaith Arbennig

Bydd deiliad y swydd wedi'i leoli yn y swyddfa / depo yn bennaf gydag ychydig iawn o alw am weithio yn yr awyr agored mewn cyflyrau annymunol e.e. baw, sŵn a llygredd traffig ar y ffyrdd. Mae risg fach i ddiogelwch personol ac o gael anafiadau yn yr amgylchedd gwaith (e.e. gan offer a pheiriannau, ac ati.)

Efallai y bydd deiliad y swydd yn wynebu gofynion sy'n gwrthdaro ac ymyraethau annisgwyl sy'n golygu bod angen ailflaenoriaethu gwaith. Bydd gofyn i ddeiliad y swydd weithio o fewn terfynau amser tynn ac o fewn cyllidebau penodol.

Bydd gofyn i ddeiliad y swydd weithio o fewn terfynau amser tynn ac o fewn cyllidebau penodol.

Dylai deiliad y swydd allu gyrru gan y bydd y swydd yn cynnwys teithio i sawl lleoliad yn rheolaidd o ddydd i ddydd, i bob rhan o'r sir ac, ar rai achlysuron, i siroedd cyfagos, fel arfer yn un o gerbydau'r Cyngor.

Gwybodaeth, Sgiliau, Hyfforddiant a Phrofiad

- Gradd berthnasol neu brofiad cyfwerth.
- Tystysgrif Cymhwysedd Technegol (COTC) WAMITAB L4 ar gyfer Trosglwyddo Gwastraff Nad Yw'n Beryglus, neu ymrwymiad i gwblhau hyn o fewn 12 mis o gyflogaeth.
- Tystiolaeth o brofiad sylweddol ar lefel reoli uwch mewn maes perthnasol.
- Gwybodaeth a phrofiad manwl o brif agweddau rheoli gwastraff.
- Gwybodaeth am fethodoleg rheoli prosiectau.
- Profiad o gynllunio gwasanaethau a gosod a mesur targedau perfformiad.
- Profiad o reoli arian.
- Profiad o weithio o'ch pen a'ch pastwn eich hun a gallu dangos sgiliau trefnu cadarn gyda'r gallu i flaenoriaethu a chyflawni nodau.
- I fodloni amcanion y gwasanaeth, bydd creadigrwydd ac arloesedd yn nodweddion hanfodol ar gyfer y rôl a bydd angen eu harfer yn rheolaidd o fewn y canllawiau cyffredinol a sefydlir gan y Rheolwr Gwastraff ac Ailgylchu.
- Bydd angen i ddeiliad y swydd ymdrin ag ystod o faterion cymhleth a dadleuol sy'n gofyn am gefnogaeth, perswâd, eiriolaeth, a sensitifrwydd o ran defnyddio canllawiau gweithredol. Bydd y canlyniad yn cael effaith wirioneddol ar y gwasanaeth.
- Bydd gofyn i ddeiliad y swydd fod â sgiliau cyfathrebu da, er mwyn cynnal perthynas waith dda pan fydd materion dadleuol yn cael eu trafod neu'u datrys.
- Deall TG ac yn gallu defnyddio pecynnau TG safonol i lunio adroddiadau, gohebiaeth a

chreu a diweddaru data ariannol.

- Gallu teithio.

Gwiriadau Cyflogaeth / Gofynion Penodol

Mae gofyn i weithwyr newydd fynd drwy ein gwiriadau recriwtio mwy diogel:
2 eirda boddhaol yn cwmpasu 3 blynedd o gyflogaeth, tystiolaeth o gymwysterau hanfodol, tystiolaeth o'r Hawl i Weithio yn y DU. Efallai y bydd angen gwiriadau iechyd i ganfod cyflyrau sydd eisoes yn bodoli.

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn cydnabod ei rwymedigaethau i ddiogelu plant ac atal caethwasiaeth a masnachu mewn pobl, gan wneud popeth o fewn ei allu i atal caethwasiaeth a masnachu mewn pobl o fewn ei fusnesau. Mae sawl math o gaethwasiaeth fodern, gan gynnwys masnachu mewn pobl, llafur gorfodol, caethiwed a chaethwasiaeth.

Mae diogelu yn bwysig i bawb, ac mae gofyn i holl gyflogeion Sir Ddinbych weithio yn unol â pholisïau a gweithdrefnau Diogelu Oedolion / Plant y Cyngor, mae dyletswydd arnynt i roi gwybod am unrhyw bryderon sy'n codi wrth gyflawni eu dyletswyddau a bod yn ymwybodol o arwyddion cam-fanteisio. Dylid codi unrhyw bryderon â'r Rheolwr Diogelu Penodedig er mwyn i'r Cyngor allu gweithredu pan gaiff cam-fanteisio ei adnabod.

Gweledigaeth / Cyd-destun

Swydd rheolwr rheng flaen y gwasanaeth yw hon yn ei hanfod, gyda'r nod o ddarparu gwasanaeth darbodus, effeithlon a rheolaidd (casglu gwastraff). Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn unigolyn rhagorol gyda'r gallu i arwain y gwasanaeth a'r tîm drwy newid sylweddol.

Mae materion gwastraff yn un o'r nodweddion amlycaf o ryngweithio'r Cyngor â'r cyhoedd. Felly, mae'n bwysig bod y maes gwasanaeth yn cael ei reoli'n effeithiol gyda sylw i gwsmeriaid.

Bydd deiliad y swydd yn meddu ar y gallu i ddylanwadu'n uniongyrchol ar ddyluniad amserlenni casglu gwastraff ac isadeiledd ategol, megis manylion cerbydau a pheiriannau, a bydd yn gweithio ar y cyd â rheolwyr gweithredol eraill i wella ansawdd amgylcheddol lleol.

Bydd y swydd yn cynnwys darparu gwasanaethau effeithlon i fodloni anghenion y cyhoedd a chyfrifoldeb deiliad y swydd yw penderfynu o ddydd i ddydd ar faterion a fydd yn cyflawni amcanion y gwasanaeth ac anghenion a disgwyliadau'r cyhoedd. Bydd angen addasu a newid arferion gwaith yn barhaus er mwyn gwneud hynny.

Manylion Am Yr Unigolyn

Mae'r Manylion yn nodi'r sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad a ystyrir yn hanfodol er mwyn ymgymryd â dyletswyddau'r swydd yn effeithiol. Caiff ei defnyddio wrth lunio rhestr fer ac ar gyfer y broses o gyfweld am y swydd hon. Dylech ddangos ar eich ffurflen gais sut rydych yn bodloni'r meini prawf hyn. Byddwch ddim ond yn cael eich cynnwys ar y rhestr fer os ydych yn bodloni pob un o'r meini prawf hanfodol (â'r meini prawf dymunol lle bo'n berthnasol).

	Meini prawf hanfodol	**Meini prawf dymunol**	**Dull Asesu** (Ffurflen Gais / Cyfweliad / Cymwysterau)
Addysg A Chymwysterau	Tystiolaeth o brofiad sylweddol ar lefel reoli uwch mewn maes perthnasol. Addysg hyd at lefel gradd mewn pwnc perthnasol (neu'n gallu dangos profiad cyfatebol). Tystysgrif Cymhwysedd Technegol (COTC) ar gyfer Trosglwyddo Gwastraff Nad Yw'n Beryglus, neu ymrwymiad i gwblhau hyn o fewn 12 mis o gyflogaeth (fel amod cyflogaeth) Cwrs Rheoli'n Ddiogel IOSH neu gyfwerth.	Cymhwyster rheoli cydnabyddedig. Aelodaeth o gorff proffesiynol.	Ffurflen Gais Cyfweliad Tystysgrifau
Profiad Perthnasol	Profiad o arwain a rheoli timau gweithredol mewn perthynas â gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y cwsmer. Profiad o ddilyn gweithdrefnau cwmni ar gyfer rheoli presenoldeb yn y gwaith, cwynion a datrys anghydfod. Profiad sylweddol o Ddarparu amgylcheddau gwaith diogel drwy ddefnyddio a monitro gweithdrefnau iechyd a diogelwch / deddfwriaeth.	Profiad o reoli contractau rheoli gwastraff. Adrodd am Lif Data Gwastraff. Profiad sylweddol o weithio mewn diwydiant rheoli gwastraff / fflyd mewn rôl oruchwyliol. Rheolaeth ariannol gan gynnwys rheoli'r gyllideb a phrynu.	Ffurflen Gais Cyfweliad

	Profiad o gadw cofnodion cywir, rheoli ffeiliau'n effeithiol a gwirio / cywiro data (megis data tocynnau pont bwyso). Profiad o weithio tuag at ac o fewn fframweithiau sicrwydd ansawdd.	Profiad o weithio gyda Chynrychiolwyr Undeb i ddatblygu perthynas gadarn rhwng y gweithlu a rheolwyr.	
Gwybodaeth A Sgiliau Cysylltiedig Â'r Swydd	Gwybodaeth am y fframwaith cyfreithiol a rheoleiddiol y mae'r gwasanaethau gwastraff yn gweithredu ynddo. Gallu gwella prosesau a systemau gweithredu i wella effeithlonrwydd a diogelwch mewn amgylchedd darparu gwasanaeth / gweithredol er mwyn cyrraedd targedau perfformiad. Bod yn fedrus gyda TG a systemau TGCh a ddefnyddir yn rheolaidd. Rhaid bod yn rhagweithiol ac yn flaengar, gan rymuso pobl eraill a gallu arwain drwy esiampl. Gallu cyfathrebu'n effeithiol, gyda chwsmeriaid / y cyhoedd a datrys materion ansawdd gwasanaeth o fewn amserlen benodol.	Llunio adroddiadau (e.e. adroddiadau Perfformiad / HSEQ, paratoi achos busnes ac ati). Gwybodaeth ymarferol am gasgliadau gwastraff ac ailgylchu. Gwybodaeth am ddatrysiadau TGCh a ddefnyddir yn y diwydiant rheoli gwastraff a gallu gwella a rheoli perfformiad drwy eu defnyddio. Gallu arwain gweithlu rheng flaen mawr drwy newid sylweddol.	Ffurflen Gais Cyfweliad

Nodweddion Personol	Arweinyddiaeth - Cymell, ysbrydoli a chefnogi eraill i gyflawni nodau a rennir. Dylanwadu - Gallu dylanwadu ymddygiad eraill, cyfathrebu'n glir yn defnyddio amrywiaeth o gyfryngau a thechnegau, gan ddefnyddio sgiliau trafod a pherswâd ar draws ystod eang o fudd-ddeiliaid yn cynnwys gweithwyr, undebau, cwsmeriaid ac uwch reolwyr. Ysgogiad i gyflawni newid drwy ddatblygu ethos cryf o weithio mewn tîm.	Gweithio mewn partneriaeth – tystiolaeth o rôl arweiniol mewn gwaith partneriaeth i ddarparu gwasanaethau cost-effeithiol.	Ffurflen Gais Cyfweliad
Gofynion Eraill	Medru teithio. Trwydded yrru lawn. Bydd angen gweithio'n hyblyg i fynychu cyfarfodydd cyhoeddus a digwyddiadau. Gallu dangos ymrwymiad i amrywiaeth a chydraddoldeb. Empathi gyda'r Gymraeg a diwylliant Cymru.	Yn rhugl yn yr laith Gymraeg.	Ffurflen Gais Cyfweliad

Diolch am eich diddordeb

Cyngor Sir Ddinbych

Gwefan: www.sirddinbych.gov.uk/gweithio-gyda-ni

Facebook: @CyngorSirDdinbych

X: @CyngorSDd

Pencadlys: Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, LL15 1YN